| | |
|---|---|
| CYFARFOD: | **PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO** |
| DYDDIAD: | **9 GORFFENNAF 2026** |
| TEITL: | **DATGANIAD O GYFRIFON 2025/26** |
| PWRPAS / ARGYMHELLIAD: | **DERBYN Y DATGANIAD O GYFRIFON STATUDOL (DRAFFT AMODOL AR ARCHWILIAD) ER GWYBODAETH** |
| AWDUR: | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID** |
| AELOD CABINET: | **CYNGHORYDD HUW WYN JONES** |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26, sy'n rhoi manylion am weithgareddau ariannol y Cyngor yn ystod y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2026.

1.2 Y Datganiad o Gyfrifon drafft ar ei ffurf safonol yw'r ddogfen ddilynol, 89 tudalen o hyd mewn un iaith.

1.3 Mae'r cyfrifon drafft a gyflwynir yma wrthi'n cael eu harchwilio a cyflwynir y fersiwn derfynol yn dilyn archwiliad er cymeradwyaeth yng nghyfarfod 29 Medi 2026 o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.

1.4 Mae ffurf a chynnwys sylfaenol y Datganiadau yma wedi'i orfodi o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd), yn ogystal â rheoliadau a safonau eraill. Mae gofynion o dan God Ymarfer Cyfrifwaith Awdurdodau Lleol yn seiliedig ar SAARh (Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol) ac wedi eu gweithredu yn Natganiad o'r Cyfrifon ar gyfer 2025/26. Gan fod y rheoliadau yn mynnu datganiadau ar ffurf safonol, mae cymariaethau gyda chyfrifon cyrff eraill wedi'u hwyluso, ond erbyn hyn mae'r datganiadau yn dechnegol gymhleth ac yn fwy anodd i'w ddeall.

1.5 Cyflwynwyd adroddiad "alldro" syml a chryno perthnasol i gyfrifon 2025/26 i'r Cabinet ar 19 Mai 2026 ac i gyfarfod Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 21 Mai 2026. Roedd yr adroddiad hwnnw yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol / rheoli, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrpasau allanol / llywodraethu.

## 2. GWEITHREDIAD ANGENRHEIDIOL

2.1 Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw'r "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" ar ran y Cyngor. Er hyn, mae'r cyfrifoldeb am gymeradwyo ac ardystio'r cyfrifon drafft gan y Swyddog Cyllid Statudol (y Pennaeth Cyllid yn Cyngor Gwynedd).

2.2 Nid oes gofyn statudol i aelodau etholedig gymeradwyo'r fersiwn ddrafft o Ddatganiad o Gyfrifon y Cyngor, ond rydym yn ystyried fod cyflwyno'r datganiad drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er gwybodaeth yn arfer da i'w ddilyn.

2.3 Bydd angen i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo'r fersiwn terfynol ar 29 Medi 2026 ar ôl derbyn adroddiad Archwilio Cymru. Ond mae cyflwyno'r fersiwn ddrafft rŵan yn gyfle i aelodau'r pwyllgor ystyried y cynnwys a holi swyddogion ariannol am y cynnwys. Mae hyn yn gyfle i'r aelodau arfogi eu hunain gyda gwybodaeth perthnasol er mwyn ystyried risgiau perthnasol, a materion eraill fydd yn destun archwiliad, yn eu cyd-destun.

## 3. CAMAU DILYNOL

3.1 Ymhellach i ardystiad gan y Pennaeth Cyllid ac ystyriaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mae Datganiad o Gyfrifon 2025/26, ynghyd â phob datganiad perthnasol arall, yn destun y broses archwilio blynyddol gan Archwilio Cymru, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd a gafodd eu hapwyntio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.

3.2 Fel a nodwyd ym mharagraff 1.3 (uchod), cyflwynir y fersiwn terfynol (wedi'i harchwilio) o Ddatganiad o Gyfrifon 2025/26 y Cyngor i gyfarfod 29 Medi 2026 o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio AM GYMERADWYAETH, ynghyd ag adroddiad ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.

3.3 Wedi hynny, bwriad yr Adran Gyllid yw i ddarparu linc i'r Datganiad terfynol i holl aelodau etholedig a phrif swyddogion y Cyngor, yn ogystal ag i eraill sydd â diddordeb.

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dderbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol ar archwiliad) am 2025/26.